**P-05-1015 Dylid categoreiddio ysgolion fel seilwaith hanfodol**

Cyflwynwyd y ddeiseb hon gan Christopher Hughes, ar ôl casglu cyfanswm o 484 lofnodion.

**Geiriad y ddeiseb**:
Gyda'r system profi, tracio ac olrhain ar waith a halogi cymunedol yn isel iawn ledled Cymru, ni ddylid cau ysgolion eto yng Nghymru.

Mae hyn yn hanfodol ar gyfer lles meddwl ac addysg plant, yn ogystal â sicrhau eu bod yn cael eu diogelu.

**Gwybodaeth Ychwanegol**
Os yw unrhyw ysgol yn gorfod cau oherwydd ymlediad coronafeirws sylweddol, rhaid iddynt allu cynnal pob gwers ar-lein yn fyw drwy gynllun addysg wrth gefn. At hynny, rhaid iddynt hefyd sicrhau bod pob plentyn yn bresennol yn y sesiwn gofrestru a'r gwersi, gan fynd ar drywydd unrhyw absenoldeb yn yr un ffordd ag y gwneir hynny yn yr ysgol er mwyn sicrhau diogelwch plant a pharhad addysg.

Rhaid i'r dull addysgu hwn ond parhau am gyfnod mor fyr â phosibl cyn i bob plentyn orfod mynychu'r ysgol yn ôl yr arfer.

Dylai ysgolion arbennig ar gyfer plant ADY yn cynnwys plant anabl beidio â chau, a dylent fod â chynllun wrth gefn i allu parhau ar agor hyd yn oed yn ystod cyfnodau clo lleol.

**Etholaeth a Rhanbarth y Cynulliad**
- Gorllewin Clwyd
- Gogledd Cymru